# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

## Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

## Ysgol Bro Tryweryn
## Frongoch
## Y Bala
## Gwynedd
## LL23 7NT

**Rhif yr Ysgol: 6612214**
**Dyddiad yr Arolygiad: 08/12/08**
**gan**
**Wil Williams**
**67644**
**Dyddiad Cyhoeddi: 12/02/09**
**O dan rif contract Estyn: 1101208**

**Cwestiwn Allweddol 3:**

**Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

95 Cynllunnir addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn drylwyr ac mae'n cynnwys nodweddion gwerthfawr megis rhaglenni ar gyffuriau, gofalu am iechyd, trafod teimladau a chefnogi ac annog ymddygiad derbyniol. Mae amser cylch yn hyrwyddo'r agweddau hyn mewn modd sensitif sy'n galluogi'r disgyblion i drafod materion ysbrydol a moesol sydd o bwys iddynt yn yr ysgol.

96 Mae'r cyfnodau addoli ar y cyd o ansawdd da ac yn cyflawni'r gofynion statudol.

101 Crëwyd cysylltiadau da gyda'r gymuned a gwahanol sefydliadau ac addoldai'r ardal. Trwy ymweliadau addysgol a phrojectau penodol, datblygwyd cysylltiadau cynhyrchiol gyda nifer o gyflogwyr a busnesau lleol.

104 Mae dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang hefyd yn nodwedd ragorol. Bydd yr ysgol yn cyfrannu'n rheolaidd at elusennau ac mae materion sy'n ymwneud â masnach deg wedi'u hintegreiddio'n fwriadus i'r cwricwlwm. Mae'r ysgol yn flaenllaw yn y maes hwn gydag un aelod staff yn cynnal hyfforddiant i athrawon ysgolion eraill.

**Addysg grefyddol**
**Cyfnod allweddol 2: Gradd 1 - Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodweddion rhagorol**

224 Yn CA2, trwy eu hastudiaeth drylwyr o Gristnogaeth a chrefyddau eraill datblyga’r disgyblion yn gynyddol yn eu medrau meddwl, a’u gallu i fynegi barn a theimladau. Maent yn feddwl agored ac yn gadarnhaol am bobl sydd â safbwyntiau a chredoau gwahanol. Maent yn gyson yn meddwl am gwestiynau pwysig sy’n codi o grefydd a bywyd dynol. Mae'r rhain yn nodweddion rhagorol.

**Nodweddion da**

225 Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth gref o werthoedd Cristionogol megis rhannu a gofalu am eraill. Trwy eu hymdrechion i gasglu arian at elusennau cenedlaethol a rhyng-genedlaethol, daw’r disgyblion yn ymwybodol eu bod yn rhan o gymuned fyd eang a bod ganddynt gyfrifoldeb tuag at eu cyd-ddyn.

226 Maent wedi ymweld ag eglwysi enwog a thrafodant yn hyderus am eu nodweddion mewnol ac allanol, a’u pwrpas fel addoldai. Maent yn gwybod yn dda am ddathliadau a gynhelir mewn addoldai ac maent yn adnabod a deall arwyddocâd ystod eang o symbolau Cristnogol.

227 Mae’r disgyblion yn wybodus wrth ddwyn i gof lawer o storïau o’r Beibl. Mae’r disgyblion hŷn yn dadansoddi a dehongli haenau o ystyr mewn stori ac yn uniaethu â’r cymeriad mewn ffordd aeddfed iawn. Maent yn effeithiol iawn wrth gymhwyso damhegion i sefyllfaoedd modern, drwy gyfrwng drama neu ddeialog ysgrifenedig.

228 Mae gan ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o grefyddau eraill megis Hindwiaeth ac Iddewiaeth, gan gymharu’n synhwyrol y gwahaniaethau a’r agweddau sy’n debyg rhwng gwahanol grefyddau.

229 Dealla’r disgyblion yn gynyddol gysyniadau megis maddeuant, ufudd-dod a chydwybod a dangosant ymwybyddiaeth gadarn o effaith a dylanwad cred ar gredinwyr. Roedd cwestiynau’r disgyblion, ar ôl gwrando ar ymwelydd yn trafod ei ffydd Gristnogol, yn dreiddgar ac aeddfed.

**Diffygion**

230 Nid oes diffygion pwysig.